Cyngor Caerdydd

Cynllun Datblygu Lleol Newydd

Archwiliad

Sesiwn Gwrandawiad Ychwanegol 8a – 09:30 – 13:00, 4 Rhagfyr 2026

Wyneb yn Wyneb

Yr Amgylchedd Naturiol

Mater - A yw'r Cynllun yn darparu fframwaith clir, cyson ac effeithiol i warchod, cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth, gan gynnwys safleoedd, cynefinoedd a rhywogaethau a warchodir yn gyfreithlon; ac a yw'r Cynllun yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, Pennod 6.

1. Agor a chyflwyniadau

2. Diwygiadau arfaethedig

2.1 Y Cyngor i:

a) Roi trosolwg o'r diwygiadau arfaethedig a sut maent yn ymateb i faterion a godwyd mewn sesiynau gwrandawiad cynharach;
b) Esbonio'r ymrwymiad a wnaed wrth baratoi'r diwygiadau; a
c) Nodi unrhyw faterion sydd ar ôl yn codi o ymgynghori ar y diwygiadau arfaethedig.

3 Materion polisi

3.1 Ei Bolisi SPxx Newydd: Dull Fesul Cam, Seilwaith Gwyrdd a Buddion Net ar gyfer Bioamrywiaeth yn gyson â PCC yn ymwneud â:

a) Rhoi'r dull fesul cam ar waith, gan gynnwys osgoi, lleoli mesurau a gofynion iawndal;
b) Y dull o wella a sicrhau budd net i fioamrywiaeth; a
c) Sicrhau gweithredu, rheolaeth hirdymor a chyllid ar gyfer mesurau bioamrywiaeth

3.2 Mewn perthynas â BG1 Diwygiedig: Pwysau Hamdden ar Aber Afon Hafren a Choed Ffawydd Caerdydd:

a) A yw'n gyson â gofynion asesu'r Rheoliadau Cynefinoedd a'r profion sy'n ymwneud â chyfanrwydd y safle; ac
b) A yw'r "neu" yn awgrymu bod sicrhau lliniaru strategol yn darparu llwybr amgen at ganiatâd?

332 Mewn perthynas â BG2: Safleoedd Dynodedig:

a) Yn flaenorol, cynigiodd y Cyngor bolisi ar wahân ar gyfer safleoedd nad ydynt yn statudol. Pam mae bellach wedi dychwelyd at ddull un polisi;
b) A yw'r polisi diwygiedig yn gwahaniaethu'n glir rhwng y gofynion diogelu a gwerthuso sy'n berthnasol i ddynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol; ac
c) A yw'r prawf polisi arfaethedig ar gyfer datblygiad sy'n effeithio ar SoDdGA yn adlewyrchu'n briodol y rhagdybiaeth yn erbyn datblygu a sefydlwyd gan PCC?

3.4 Mewn perthynas â Pholisi BG3 Cynefinoedd, Rhywogaethau Gwarchodedig a Chynefinoedd a Rhywogaethau Pwysig lawn:

a) A yw'r polisi'n darparu eglurder ynghylch y gofynion cyfreithiol a pholisi sy'n berthnasol i'r gwahanol gategorïau o gynefinoedd a rhywogaethau;
b) Pa ofynion y mae'r polisi hwn yn eu hychwanegu at y polisi Dull Fesul Cam newydd; ac
c) A yw cwmpas y gofyniad budd net i fioamrywiaeth yn glir, gan gynnwys a yw'n berthnasol i gynefinoedd a rhywogaethau unigol neu i'r cynnig yn ei gyfanrwydd?

3.5 Mewn perthynas â Pholisi BG5 Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd a Pholisi BG6 Priddoedd:

a) Sut bydd BG5 a BG6 yn gweithredu ochr yn ochr â'r polisi Dull Fesul Cam newydd? A yw eu gofynion gwahanol ac unrhyw groesgyfeiriadau angenrheidiol yn glir?
b) Pa newidiadau sydd wedi'u gwneud i BG6 mewn ymateb i bwynt gweithredu HS8.2(v), a sut maent yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd?

4 Pwyntiau Gweithredu